| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 27 Ebrill 2016 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Barbara Smith - Aelod Arweiniol Moderneiddio a Thai.<br>Alan Smith - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Ivan Butler – Pennaeth Archwilio Mewnol |
| **Teitl:** | Drafft o'r Datganiad Llywodraethu a Gwelliant Blynyddol |

2015-16

**1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?**

Mae’r adroddiad hwn yn darparu’r adroddiad hunanasesu drafft ar drefniadau llywodraethu a gwella'r Cyngor ar gyfer 2015/16.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?**

Mae’r adroddiad yn rhoi’r cyfle i’r Pwyllgor roi sylwadau ar y drafft cyntaf o ‘ddatganiad llywodraethu blynyddol’ eleni.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Mae'r Pwyllgor yn adolygu ac yn rhoi sylwadau ar y ‘datganiad llywodraethu blynyddol’ drafft ar gyfer 2015/16 (Atodiad 1).

**4. Manylion yr Adroddiad**

Mae'r Datganiad Llywodraethu a Gwella Blynyddol 2015/16 yn cynnwys hunanasesiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac yn dangos meysydd gwella yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'n tynnu sylw at unrhyw wendidau mewn cynllun gweithredu, a bydd y Pwyllgor hwn yn eu monitro i sicrhau gweithrediad y gwelliannau angenrheidiol.

Dylai'r Pwyllgor nodi bod hwn yn ddrafft cynnar sydd yn dal i fod yn waith sy'n mynd rhagddo ac mae rhai meysydd y mae angen eu hychwanegu a’u cwblhau. Bydd y fersiwn derfynol y cytunwyd arni yn cael ei llofnodi gan y Prif Weithredwr a’r Arweinydd erbyn 30 Mehefin 2016, ac yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor hwn gyda'r Datganiad o Gyfrifon.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Er nad yw'r hunanasesiad ‘datganiad llywodraethu blynyddol’ yn cyfrannu'n uniongyrchol at Flaenoriaethau Corfforaethol, mae'n darparu asesiad a sicrwydd ar ddarpariaeth y Cynllun Corfforaethol, perfformiad gweithredol ac ariannol y Cyngor, trefniadau llywodraethu, ymgysylltu â'r gymuned ac ati sydd i gyd yn cael eu cyfeirio tuag at gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Amherthnasol – nid oes penderfyniad na chostau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a’i atodi i'r adroddiad.**
Nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi eu gwarchod.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**
Mae’r Tîm Gweithredol Corfforaethol wedi ymgynghori ar y Datganiad drafft – ni chafwyd dim sylwadau.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Pe na bai’r Cynllun Gwella Llywodraethu yn cael ei weithredu, byddai gwendidau yn aros yn nhrefn lywodraethol y Cyngor, a allai arwain at:

- adroddiadau rheoleiddiol niweidiol;
- defnydd gwael o arian cyhoeddus;
- methiant i wella meysydd corfforaethol a meysydd gwasanaeth allweddol;
- colli hyder budd-ddeiliaid; ac
- effaith andwyol ar enw da'r Cyngor.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.